OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2012 Rhif 934 (Cy.120)

GWASANAETHAU TÂN AC ACHUB, CYMRU

Gorchymyn y Gwasanaethau Tân ac Achub (Fframwaith Cenedlaethol) (Cymru) 2012

Gwnaed - - - - 24 Mawrth 2012
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - - 27 Mawrth 2012
Yn dod i rym - - 20 Ebrill 2012

Mae'r Gorchymyn hwn wedi ei wneud drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 21(6) a 62 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004(**1**).

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori ag awdurdodau tân ac achub neu bersonau yr ystyrir eu bod yn eu cynrychioli hwy, personau yr ystyrir eu bod yn cynrychioli cyflogeion awdurdodau tân ac achub a phersonau eraill yr oeddent yn eu hystyried yn briodol.

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn y Gwasanaethau Tân ac Achub (Fframwaith Cenedlaethol) (Cymru) 2012 a daw i rym ar 20 Ebrill 2012.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

Y Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub

2. Bydd y Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub, a baratowyd gan Weinidogion Cymru, sy'n dwyn yr enw "Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub Cymru 2012" ac a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru ar 27 Mawrth 2012, yn cael effaith fel diwygiad, sy'n ymddangos i Weinidogion Cymru yn arwyddocaol, o Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub Cymru 2008 -2011(**2**).

(**1**) 2004 p.21. Mae'r pwerau o dan adran 21 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 bellach wedi eu breinio yng Ngweinidogion Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru. Yr oeddent wedi eu breinio'n flaenorol yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru gan adran 62 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004. Yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), fe'u trosglwyddwyd i Weinidogion Cymru.

(**2**) Rhoddwyd effaith i Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub Cymru 2008-2011 gan O.S. 2008/2298 (Cy.197).